Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl310

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Grymuso Corfforol 2023-24**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae cwmni buddiant cymunedol Grymuso Corfforol yn darparu dosbarthiadau hunanamddiffyn, magu hyder a gwytnwch ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus yn 2022-23, mae cwmni buddiant cymunedol Grymuso Corfforol wedi gofyn i'r CHTh am £20,400.00 i barhau â'r gwaith pwysig hwn. Defnyddiodd y prosiect peilot staff sy'n gweithio i ganolfan y sefydliad ym Mhort Talbot, a deithiodd i Lanelli i gyflwyno sesiynau. Mae'r cais newydd hwn am gyllid yn ehangu ar y ddarpariaeth hon i gyflogi rhywun llawn amser i gyflwyno'n uniongyrchol i gymunedau Dyfed-Powys.

Maen nhw'n datblygu gallu mynychwyr i ystyried eu hunain yn oroeswyr yn hytrach na dioddefwyr, cryfhau eu hymdeimlad o hunan, eu helpu i gael gwared ar y teimlad parhaus o ofn sydd ganddynt, bod yn fwy medrus, annibynnol a hyderus, chael y gallu i gyfrannu mwy i gymdeithas.

Derbyniodd y prosiect peilot ymateb da, ac mae wedi rhoi cymorth yr oedd taer ei angen ar fenywod i'w grymuso i adnabod ac osgoi patrymau ymddygiad mynych, dod yn fwy cadarn, a chynyddu eu hunan-barch.

Mae'r prosiect yn gwbl gydnaws â dwy o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu – Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Niwed.

**Argymhelliad:**
Rhoi £20,400.00 i gefnogi cwmni buddiant cymunedol Grymuso Corfforol i sefydlu canolfan barhaol yn ardal Dyfed-Powys a pharhau i gefnogi a grymuso dioddefwyr cam-drin domestig.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 11/07/23**